Cylchlythyr Ffês 3

Medi 2019

Gair o groeso

Croeso cynnes yn ôl i bawb ar ôl y gwyliau Haf, a chroeso am y tro cyntaf i ddisgyblion dosbarth meithrin. Croeso hefyd i ddisgyblion blwyddyn 7 sydd erbyn hyn ar y brif safle pob dydd. Dymunwn flwyddyn lwyddiannus i bawb ym mhob agwedd o fywyd ysgol.

Pwyntiau Cyswllt Ffês 3

Pennaeth Cynorthwyol Ffês 3—Miss Melanie Cooper

Anogwr Dysgu Safonau a Lles Ffês 3—Mrs Awel Davies

Llongfyarchiadau Blwyddyn 10 ac 11

Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion blwyddyn 10 ac 11 ar eu canlyniadau TGAU yn yr Haf. Pob dymuniad da i'r disgyblion sydd wedi gadael yr ysgol ac wedi symud ymlaen i astudio pynciau lefel A, pynciau galwedigaethol, prentisiaeth neu i fyd gwaith. Dymuniadau gorau hefyd i ddisgyblion blwyddyn 11 yn ystod eu blwyddyn olaf yn Ysgol Bro Idris.

Yr Urdd

Mae'n amser! Ymaelodwch ar-lein heddiw!

http://www.urdd.cymru/cy/ymuno/

Pris Aelodaeth

Medi 3ydd 2019 - Ionawr 10fed 2020
£8 yr un, neu £20 am deulu.
Ar ôl Ionawr 9fed 2020
£10 yr un, neu £25 am deulu.

urdd.org
Urdd Gobaith Cymru

Tymor yr Hydref 2019

3 Medi 2018 - 20 Rhagfyr

Hanner tymor: Hydref 28 – Tachwedd 1

Diwrnodau HMS (dim ysgol i ddisgyblion):
Medi 30 a Tachwedd 22

Taith Ffês 3 i Lydaw

Pob hwyl i'r grŵp o ddisgyblion Ffês 3 a fydd yn teithio i Lydaw ar ddiwedd y mis. Mae'r daith yn cynnwys ymweld â Quimper, ysgol leol, crochendy ac atyniadau lleol. Mwynhewch!

Dyddiadau allweddol:

19/9/19: Lluniau Tempest Prif Safle
27/9/19: Bore Coffi Macmillan
29/9/19-4/10/19: Taith Ffês 3 i Lydaw
7/10/19: Noson Mathemateg i rieni Ffês 2 a 3
15/10/19: Diwrnod Shwmae Su'mae
8/11/19: Tynnu lluniau Blwyddyn 11
15/11/19: Diwrnod Plant Mewn Angen
18/11/19: Arholiadau Blwyddyn 7-9
25/11/19: Noson Mathemateg i rieni Ffês 2 a 3
28/11/19: Ffair Nadolig Ysgol Bro Idris
2/12/19-6/12/19: Ffug arholiadau Blwyddyn 11
9/12/19-13/12/19: Ffug arholiadau Blwyddyn 10
18/12/19: Cinio Nadolig

Cynllun Mentora

Mae cynllun mentora wedi ei sefydlu unwaith eto eleni i bob disgybl ym mlwyddyn 11. Bwriad y cynllun yw cynnig cymorth ac arweiniad i'r disgyblion yn ystod eu blwyddyn bwysicaf yn yr ysgol. Bydd y disgyblion yn cyfarfod gyda'u mentor o leiaf unwaith pob hanner tymor, gan osod targedau, ac yna gwirio'u cynnydd er mwyn sicrhau llwyddiant yn yr Haf.